OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 696

## Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

**Adrodd**

**10.**—(1) Ar ôl cwblhau asesiad cymesuredd, rhaid i Weinidogion Cymru anfon yr wybodaeth a restrir ym mharagraff (2) i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i chofnodi yn y gronfa ddata o broffesiynau rheoleiddiedig y cyfeirir ati yn Erthygl 59(1) o Gyfarwyddeb 2005/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Medi 2005 ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol(**1**).

(2) Yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1) yw—

(a) copi o'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, a

(b) y rhesymau dros ystyried bod y ddarpariaeth yn gyfiawn ac yn gymesur.

(**1**) OJ Rhif L 255, 30.9.2005, t. 22, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 132).